Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod (rhithiol) misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 6ed o Ionawr 2022.

1 **Presennol** Richard Williams (Cadeirydd) Gwilym Evans Prenteg, Richard Parry Edward Evans – Bryncir, John Jones Clifford Williams Michael Jones – Garndolbenmaen, Megan Lloyd Williams – Golan, Huw Pritchard Delyth Evans – Pentrefelin, Dafydd Thomas Iddon Edwards – Penmorfa. Cynghorydd Alwyn Gruffydd, Cynghorydd Stephen Churchman.

2 **Ymddiheuriadau** - Anwen Humphreys (dim mynediad i offer TG, cyswllt rheolaidd ar y ffôn), Manon Jones Evans, Gwenno Emlyn Huws, Amanda N Owen.

3 **Ddim yn bresennol** – dim.

4 **Datgan buddiant** – eitem 13 Megan Lloyd Williams.

5 **Cywirdeb y cyn-gofnodion** – Cofnodion 2/12/21 Dafydd Thomas yn cynnig ei bod yn gywir a Huw Pritchard yn eilio.

6 **Materion yn codi o'r cyn-gofnodion**

Prenteg

Modurdy – heb dderbyn diweddariad.

Modur wedi ei symud o'r Maes Parcio ac wedi ei barcio o flaen y tai cyngor – heb dderbyn diweddariad.

Gwter wrth Aberdeunant – Clerc i gysylltu gyda'r Adran Priffyrdd i holi os yw'r archwiliad wedi digwydd.

Garndolbenmaen

Problemau Parcio - derbyniwyd ateb gan Bennaeth Adran Amgylchedd yn ymddiheuro am beidio cynnal ymgynghoriad. Mae'r Uwch Beiriannydd Traffig yn mynd i gysylltu i drafod dyddiadau ar gyfer cynnal y broses ymgynghori.

Cambrian Terrace – mae Cyngor Gwynedd wedi rhoi rhybudd i'r trigolion ynglyn a gadael y biniau allan.
Modur yn parcio ar y Green – Clerc i yrru rhif y cerbyd at Cyngor Gwynedd.

Hwb Eifionydd – heb dderbyn ateb.

Golan

Mynwent Bethel – llwybrau wedi cael eu tacluso. Tsiaen wedi ei osod ar y fainc.

Carreg fedd gyda thâp o'i amgylch – gwaith heb ei wneud. Clerc i gysylltu gyda'r Brodyr Kerrs.

Pentrefelin

Boncyffion coed wedi cael eu clirio o Ffordd Tabor.

Ger y Llwyn – yr Heddlu am gysylltu gyda pherchennog y fan sy'n parcio ar y lôn.

Newid cyfyngiad cyflymder Fferm Plymouth at y Ganolfan. Mae'r ymholiad wedi ei anfon at Adran Drafnidiaeth Cyngor Gwynedd. Cysylltwyd eto ar ddau achlysur ym mis Rhagfyr, ond nid yw'r Adran yn ymateb. Clerc i gysylltu eto.

7 **Mynwentydd**

Mynwent Bethel

Caead twll archwilio – derbyniwyd pris am wneud y gwaith. Clerc i gael cadarnhad fod y contractwr am ddefnyddio un o wneuthuriad trwm.

Mynwent Prenteg

Pridd heb gael ei glirio ar ol ail agor bedd. Clerc i gysylltu gyda'r ymgymerwr.

8 **Llwybrau Cyhoeddus**

Llwybr Cefn Meusydd i Hendregadredd, Pentrefelin – llechi heb gael ei ail osod ac yn beryg. Clerc i gysylltu gyda'r Uwch Swyddog Hawliau Tramwy.

9 **Adroddiad Pentrefi**

Hwb Eifionydd

Mae Meddygfeydd Porthmadog a Chriccieth wedi rhoi'r gorau i'r gwasanaeth fferylliaeth. Disgwylir i gleifion fynd i'r feddygfa i ail archebu presgripsiwn, ond rhaid ei nôl o'r fferyllfa leol. Deëllir fod y Meddygfeydd am lythyru gyda'r cleifion i egluro'r trefniadau newydd.

Garndolbenmaen

Lôn am Golan ochor Garndolbenmaen – cylfert wedi chwalu. Cyngor Gwynedd am ei hatgyweirio.

Mynydd Glas – bagiau baw cwn yn cael ei gadael ar y llawr. Adroddodd y Cynghorydd Stephen Churchman ei fod wedi trafod gyda Rheolwr Gwasanaethau Stryd i osod bin wrth Bryn Awelon.

10 **Adolygu gofynion yr archwilwyr allanol ee rheolau sefydlog ac asesiad risg**

Trafodwyd Asesiad Risg 2021 a phenderfynwyd bod angen ychwanegu offer chwarae a'r adnoddau garddio.

11 **Cyllideb 2022 -23**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Clerc yn dangos –

- Gwariant y Cyngor hyd at 31/12/2021;
- Amcangyfrif o'r gwariant hyd at 31/03/2022;
- Cyllideb drafft 2022 – 2023.

Penderfynwyd cadw'r praesept yn £18,000.

Dafydd Thomas yn cynnig a Clifford Williams yn eilio.

12 **Gohebiaeth**

Llythyrau Cyngor Gwynedd – rhybudd cau ffordd di-ddosbarth gyferbyn â Dolwgan Isaf 5/1/22.
Gwaith ail-wynebu Cigydd K E Taylor – Lôn Geraint, Criccieth 12/1/22 hyd at 3 wythnos.
Biniau Halen.
Polisi Cynllunio Gwynedd a Môn Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi – Canllawiau Cynllunio Atodol. Cyfnod Ymgynghori 15/12/21 – 9/2/22/
Grant Oed Gyfeillgar – rhannwyd 29/11/21.
Praesept – 2022 – 2023.

Gohebiaeth ychwanegol

a Unllais Cymru – Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 Canllawiau Statudol Drafft ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref. Dyddiad cau 17/3/22.
b Unllais Cymru – Hyfforddiant Ionawr – Mawrth.
c Mantell Gwynedd – Bwletinau Rhif 19 a 20.
ch Cyngor Tref Criccieth – Enwau, Chwedlau a Chân.

13 **Cynllunio**

Rhestrau – 26/11, 3/12, 10/12,17/12, 24/12/21.

Ceisiadau Cynllunio

NP2/16/T437C Diddymu cytundeb Adran 106 dyddiedig 19/10/2006 mewn perthynas â chaniatâd cynllunio NP2/16/T437B yn ei gyfanrwydd Cefn yr Efail Isaf, Llys Gwilym, Golan. Dyddiad cau 22/12/21. Dim sylwadau

C21/1161/36/LL Creu pwll piswail o dan llawr adeilad amaethyddol presennol, Llecheiddior Uchaf, Bryncir, Garndolbenmaen. Dyddiad cau 27/12/21. Dim gwrthwynebiad.

14 **Materion Ariannol**

Ceisiadau am arian: - Tŷ Gobaith, Y Ganolfan Pentrefelin, Canolfan Gymdeithasol Golan, Cylch Meithrin Y Gorlan Fach, Cyfeillion Ysgol y Gorlan, Canolfan Prenteg, Neuadd Garndolbenmaen, Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Madog, Neuadd Penmorfa, Ambiwlans Awyr Cymru, Marie Curie. Trafod ym mis Chwefror.

Monitro'r Gyllideb: dim gorwariant.

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	=	£ 253.33
Ffôn	=	£ 10.00
Cyfrifiadur	=	£ 15.00
HMRC	=	£ 63.20
Yr Wylan	=	£ 16.00
HSBC Costau 6/11/21 – 5/12/21	=	£ 11.00

Derbyniadau - Pritchard & Griffiths = £ 225.00
J P Turner a'i Ferched = £ 268.75

Balansau Cyfrifon: Cadw £16,845.15 Cyfredol £12,318.64

15 **Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg/Gwefan**

- Cyllideb.
- Ceisiadau Cynllunio.
- Hwb Eifionydd

Gwefan: Cofnodion mis Rhagfyr.